# PWYLLGOR CYSYLLTU CYMUNEDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 1 Gorffennaf, 2025.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma:
RHAN 1
RHAN 2

Yn bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Y Cynghorwyr A. Asbrey, C. Cave, W. Gilligan, S.J. Haines, S.M. Hanks, N.P. Hodges, H.M. Payne, S.D. Perkes ac R.R. Thomas.

Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr B. Brooks (Cyngor Tref y Barri) (Dirprwy), M. Wilson (Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Phillips (Cyngor Cymuned Dinas Powys), H. Baker (Cyngor Cymuned Ewenni) (Dirprwy), S. Jefferies (Cyngor Cymuned Llandochau), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), L. Green (Cyngor Cymuned Llan-faes) (Dirprwy), P. Summers (Cyngor Cymuned Pen-llin), S.M. Toker (Cyngor Cymuned Sain Tathan), I. Perry (Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant), Dr. I J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr M.R. Wilson (Is-gadeirydd), S. Campbell, S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), R. Cox (Cyngor Tref Penarth) (Dirprwy), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llan-faes), C. Wride (Cyngor Cymuned Pendeulwyn) ac A. Cory (Cyngor Cymuned Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái).

## EITEM AGENDA 2. COFNODION –

CYTUNWYD – Y BYDD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill, 2025 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU O FUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

EITEM AGENDA 4. GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD – Y BOD yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd gan yr Arolygydd Childs yn cael eu nodi.

EITEM AGENDA 5. GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

CYTUNWYD –

(1) Y bod y diweddariad llafar a ddarparwyd gan y Rheolwr Grŵp O'Keefe yn cael ei nodi.

(2) Y bod diweddariad ysgrifenedig gan y Rheolwr Grŵp O'Keefe yn cael ei ddarparu i holl aelodau'r Pwyllgor, trwy'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn dilyn y cyfarfod, gan gynnwys cyngor penodol ar gyfer tywydd cynhesach.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan ystyried gwybodaeth ddiweddaraf ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (Ebrill 2025).

(2) Fel y gall Aelodau'r Pwyllgor rannu'r diweddariad gan y Gwasanaeth Tân a chyngor diogelwch tywydd cynnes gyda'u Cynghorau Tref a Chymuned priodol.

EITEM AGENDA 6. ENWEBU CYNRYCHIOLYDD O GYNGHORAU CYMUNED AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS –

CYTUNWYD – Y dylid gohirio'r adroddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn caniatáu mwy o amser i'r Pwyllgor ystyried enwebiadau perthnasol a chymryd y mater i bleidlais gyda nifer uwch o Gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned yn bresennol.

EITEM AGENDA 7. COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU: ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL BRO MORGANNWG –

CYTUNWYD –

(1) Y dylid nodi sylwadau Cyngor Bro Morganwg ar ymgynghoriad cychwynnol y Comisiwn ar gam cyntaf yr adolygiad a'r sylwadau arno, fel y'u nodir yn yr adroddiad.

(2) BOD yr adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cyngor ar 14 Gorffennaf, 2025.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol o sylwadau'r Cyngor i ymgynghoriad cychwynnol y Comisiwn ar gam cyntaf yr adolygiad.

(2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor a chymeradwyo'r ymateb i gam ymgynghori cychwynnol yr adolygiad.